



WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

# **Dinas a Sir Abertawe**

## **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

### **Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010**



**Cyf: 402A2010**

Llun trwy garedigrwydd Dinas a Sir Abertawe.

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe gan Rod Alcott (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a Jeremy Evans (Cydlynnydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner).

# Mae rhai trefniadau corfforaethol wedi gwella ac yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol,<sup>1</sup> ond erys rhai gwendidau ac mae arweinyddiaeth y Cyngor bellach yn wynebu'r her o gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn amgylchedd economaidd anodd iawn

<sup>1</sup> Mae'r Cyngor wedi llunio'r diffiniad canlynol: gwelliant parhaus yw datblygu atebion cynaliadwy a'u rhoi ar waith, gan ystyried anghenion a dymuniadau'r dinesydd, yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

**Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ  
Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn Testun: 029 2032 0660  
E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Dinas a Sir Abertawe fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk)



# Cynnwys

Crynodeb	4
Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser	6
Ar ôl cyfnod o newid sylweddol, bellach mae gan y Cyngor arweinyddiaeth fwy sefydlog ond bydd angen iddo wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn diogelu gwasanaethau hanfodol a sicrhau gwelliant mewn amgylchedd heriol iawn	6
Nodwedd y Cyngor yn y gorffennol oedd newidiadau sylweddol yn yr arweinyddiaeth a darlun cymysg o gyflawniad	6
Bellach mae gan y Cyngor arweinyddiaeth wleidyddol ac uwch-swyddogion arweiniol mwy sefydlog ac mae wrthi'n gwella rhai gwasanaethau allweddol, er yr erys Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn agored i ymyrraeth	7
Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol a bydd angen iddo wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn diogelu gwasanaethau hanfodol a sicrhau gwelliant	8
Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella	9
Mae rhai trefniadau'n cefnogi gwelliant yn gadarnhaol ac mae Tîm Rheoli Corfforaethol sefydlog yn bodoli, fodd bynnag, ceir rhai problemau a diffygion llywodraethu mewn rhai trefniadau busnes	9
Mae trefniadau partneriaeth, rheoli prosiectau a rhai agweddau ar reoli adnoddau yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol	9
Mae gan y Cyngor Dîm Rheoli Corfforaethol sefydlog a grŵp o bolisiâu a strategaethau cydlynol ar y cyfan ond ceir rhai problemau llywodraethu a bydd angen i'r arweinyddiaeth wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn sicrhau'r arbedion angenrheidiol	11
Gallai diffygion mewn cynllunio busnes, rheoli perfformiad a risg ac agweddau ar reoli pobl beryglu gwelliant yn y dyfodol	13

# Crynodeb

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

  - Asesiad Corfforaethol - sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
  - Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo.
- 3 Y nod yw cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig, a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC, 'ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi – ni ellir cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig'. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.
- 6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'
- 7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.
- 8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod rhai trefniadau corfforaethol wedi gwella ac yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaolt<sup>2</sup> ond erys rhai gwendidau ac mae

---

2 Mae'r Cyngor wedi llunio'r diffiniad canlynol: gwelliant parhaus yw datblygu atebion cynaliadwy a'u rhoi ar waith, gan ystyried anghenion a dymuniadau'r dinesydd, yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus.



arweinyddiaeth y Cyngor bellach yn wynebu'r her o gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn amgylchedd economaidd anodd iawn.

9 Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:

- ar ôl cyfnod o newid sylweddol, bellach mae gan y Cyngor arweinyddiaeth fwy sefydlog ond bydd angen iddo wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn diogelu gwasanaethau hanfodol a sicrhau gwelliant mewn amgylchedd heriol iawn;
- mae rhai trefniadau'n cefnogi gwelliant yn gadarnhaol ac mae Tîm Rheoli Corfforaethol sefydlog yn bodoli ond ceir rhai problemau a diffygion llywodraethu mewn rhai trefniadau busnes.

## Arolygiad arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal Arolygiad Arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur nac argymhell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur.

## Meysydd i'w gwella

12 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur ond awgrymir cynigion ar gyfer gweithredu isod.

### Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

- |    |   |
|----|---|
| C1 | Ymgysylltu ymhellach â phartneriaid er mwyn nodi deilliannau a rennir, a datblygu mesurau llwyddiant a dangosyddion perfformiad.  |
| C2 | Sicrhau bod cynlluniau strategol wedi'u cysoni'n ofalus, a'u hintegreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog er mwyn cryfhau'r cynllunio busnes corfforaethol.   |
| C3 | Sicrhau y caiff cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau eu hintegreiddio'n well er mwyn gwella perchenogaeth cyllidebau a gwella'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau arbedion.   |
| C4 | Chwilio am ffyrdd o gryfhau atebolrwydd am ymddygiad aelodau a lleihau nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Gallai hyn gynnwys ystyried rôl fwy gweithredol i'r Pwyllgor Safonau a/neu ddatblygu systemau mewnol ar gyfer datrys cwynion.   |
| C5 | Sicrhau bod strwythur cliriach ar gyfer gwneud penderfyniadau yn yr adran TGCh ac ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol.  |
| C6 | Symud rhywfaint o ymdrech Adnoddau Dynol i gynllunio a pharatoi camau gweithredu ar gyfer y dyfodol er mwyn helpu'r Cyngor i baratoi ar gyfer risgiau sylweddol a'u lliniaru cyn iddynt ddatblygu. Yn benodol, mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ar y meysydd canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Strategaeth Adnoddau Dynol</li> <li>■ Cynllunio strategol ar gyfer y gweithlu</li> <li>■ Arfarniadau perfformiad unigol</li> </ul> |
| C7 | Gwella integreiddio rhwng y cynllun gwasanaeth, y cynllun ariannol a'r cynllun gweithlu er mwyn creu dull gweithredu strategol i leihau costau staff sy'n lleihau'r risg o gamgyfatebiaeth rhwng y gofynion o ran adnoddau a'r cyflenwad sgiliau yn y dyfodol.  |

## Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

### Ar ôl cyfnod o newid sylweddol, bellach mae gan y Cyngor arweinyddiaeth fwy sefydlog ond bydd angen iddo wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn sicrhau gwelliant mewn amgylchedd heriol iawn

- 13 Mae'r Cyngor wedi bod drwy gyfnod o newid sylweddol yn yr arweinyddiaeth ers 2004 a bellach mae mewn sefyllfa fwy sefydlog. Fodd bynnag, er bod y sefyllfa fewnol yn fwy sefydlog, mae'r Cyngor, ynghyd â phob corff cyhoeddus, yn dechrau ar gyfnod anodd iawn o doriadau mewn gwariant yn y sector cyhoeddus.
- 14 Bydd heriau'r dyfodol ar raddfa fwy nag erioed a bydd angen ailystyried y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu ar lefel sylfaenol. Mae'n rhaid i arweinyddiaeth y Cyngor sicrhau arbedion sylweddol dros y blynyddoedd nesaf a bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ac amserol am ba wasanaethau a ddarperir a'r modd y'u cyflwynir.
- 15 Mae'r Cyngor wedi rhoi rhai trefniadau corfforaethol ar waith a fydd yn helpu i sicrhau gwelliant yn y dyfodol ond ceir meysydd hefyd a fydd angen eu cryfhau. Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r gwendidau hyn er mwyn sicrhau'r gwelliant y mae'n ceisio ei sicrhau, a hefyd er mwyn dangos bod y gwelliannau angenrheidiol yn y

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi'u hymgorffori ac yn gallu cynnal gwelliannau.

### Nodwedd y Cyngor yn y gorffennol oedd newidiadau sylweddol yn yr arweinyddiaeth a darlun cymysg o gyflawniad

- 16 Bellach mae gweinyddiaethau clymbleidiol wedi disodli gweinyddiaethau a arweiniwyd gan y blaid Lafur rhwng 1996 a 2004. Ochr yn ochr â'r newid sylweddol hwn yn yr arweinyddiaeth wleidyddol, gwelwyd newid sylweddol ar lefel uchaf uwch-swyddogion y Cyngor yn y cyfnod ers 2004.
- 17 Mae'r Cyngor wedi cael rhai llwyddiannau nodedig dros y blynyddoedd:
  - datblygu SA1;
  - adnewyddu'r dderbynfa er mwyn datblygu canolfan gyswllt ac adleoli'r Llyfrgell Ganolog i Neuadd y Sir;
  - Stadiwm Liberty;
  - LC;
  - datblygu rhaglen moderneiddio ysgolion a'i gweithredu'n gynnar;
  - Cyngor y Flwyddyn o ran Darparu Gwasanaeth 2009-10 y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE);
  - gwasanaethau addysg da gan yr awdurdod lleol a chanlyniadau da o'r arolygiadau dysgu cymunedol i oedolion.





**18** Fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd wedi dod ar draws problemau sylweddol. Y mwyaf nodedig o'r rhain oedd yr adroddiadau beirniadol ar ansawdd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a arweiniodd at y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn sefydlu Bwrdd Ymyrraeth i oruchwyllo'r gwelliannau angenrheidiol. Cafwyd problemau â rhai elfennau o'r rhaglen e-lywodraeth uchelgeisiol, megis oedi cyn cyflawni cerrig milltir allweddol a gallu'r Cyngor i herio a fyddai'r broses gaffael yn sicrhau gwerth am arian.

**19** Ar 25 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau iddynt gael eu llunio yn unol â gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Daeth yr Archwilydd Penodedig hefyd i'r casgliad bod yr archwiliad o brosesau ariannol pwysig y Cyngor yn nodi rhai gwendidau mewn rheolaeth fewnol.

**20** Yn ein Llythyr Blynyddol mwyaf diweddar (Ionawr 2010) daeth yr Archwilydd Penodedig i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i weinyddu materion ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt a sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09, ond ceir rhai gwendidau mewn rheolaeth fewnol a cheir cyfleoedd i wella. Daethom hefyd i'r casgliad bod ein hadolygiadau yn dangos darlun cymysg o berfformiad da iawn a meysydd sy'n achosi pryder mewn meysydd gwasanaeth pwysig.

## **Bellach mae gan y Cyngor arweinyddiaeth wleidyddol ac uwch-swyddogion arweiniol mwy sefydlog ac mae wrthi'n gwella rhai gwasanaethau allweddol, er yr erys Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn agored i ymyrraeth**

**21** Mae gweinyddiaeth y glymblaid bellach yn ei hail dymor mewn grym ac mae gan y Cyngor Dîm Rheoli Corfforaethol sefydlog. Dim ond un aelod newydd sydd wedi cael ei benodi yn y tair blynedd diwethaf, ac roedd hwnnw'n benodiad mewnol.

**22** Cafodd y Cyngor arolygiad Estyn cadarnhaol o'r Awdurdod Addysg Lleol yn ystod haf 2009. Cadarnhaodd yr arolygiad fod y gwasanaethau addysg yn dda a bod ganddynt rai nodweddion eithriadol ac roedd rhagolygon da ar gyfer gwelliannau pellach. Cafodd y Cyngor hefyd adroddiad cadarnhaol ar Ddysgu Cymunedol i Oedolion ar ôl arolygiad Estyn ym mis Tachwedd 2009.

**23** Cafodd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd eu harolygu gan AGGCC am yr ail waith ym mis Mawrth 2010. O ganlyniad i ganfyddiadau'r ail arolygiad, erys y Gwasanaeth yn agored i ymyrraeth. Bydd y Bwrdd Ymyrraeth yn parhau i weithio gyda'r Cyngor ac i fonitro cynnydd nes bod y gwelliannau a nodir gan y Gweinidog ac AGGCC wedi'u hymgorffori ac yn gallu cynnal gwelliannau.

**Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol a bydd angen iddi wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn sicrhau gwelliant**

**24** Fel cynghorau eraill yng Nghymru, mae'r Cyngor yn wynebu'r her o fodloni mwy a mwy o ddisgwyliadau'r boblogaeth leol o wasanaethau'r cyngor mewn amgylchedd o doriadau mewn gwariant yn y sector cyhoeddus. Bydd y toriadau hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn gorfod sicrhau arbedion sylweddol a chylchol dros y pedair i bum mlynedd nesaf.

**25** Bydd yr her o sicrhau arbedion sylweddol a chylchol yn debygol o arwain at orfod cau a rhoi'r gorau i rai gwasanaethau. Bydd hyn yn ei dro'n arwain yn anochel at newidiadau mewn swyddi a lleihad yn nifer y swyddi a lleihad yn nifer y gweithwyr. Bydd newidiadau o'r fath yn gofyn am reoli gofalus sy'n cydbwysu'r angen i arbed arian â'r angen i sicrhau'r niwed lleiaf posibl i forâl a'r effaith leiaf posibl ar allu ac adnoddau a pharhad yn y dyfodol o ganlyniad i golli sgiliau.

**26** Bydd angen i'r Cyngor benderfynu ar ei siâp a'i ffurf yn y dyfodol a phennu'r cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau a'u galluogi. Bydd amseru'n hanfodol, ni all y Cyngor fforddio oedi. Bydd yn rhaid iddo wneud penderfyniadau anodd yn gyflym, yn enwedig y penderfyniadau mawr am ba wasanaethau y bydd yn eu darparu a sut y bydd yn gwneud hynny.

**27** Mae'r Cyngor bellach yn wynebu'r her o weddnewid gwasanaethau mewn amgylchedd gwleidyddol o wrthbleidiau trefnus, a bydd angen cysoni'r buddiannau a'r ideolegau gwahanol sydd yn y glymblaid; ac yng nghydestun lefel uchel o graffu allanol.

**28** Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei bedwar amcan gwella eang ei gwmpas ar gyfer y cyfnod 2010-2011 yn ei adroddiad Gwneud Gwahaniaeth: Cynllun Gwella Corfforaethol 2010-11. Mabwysiadwyd yr adroddiad yn ffurfiol gan y Cyngor llawn ar 18 Mai 2010 ac mae'n nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Abertawe a sut y bydd y Cyngor yn gweithio tuag at wneud Abertawe yn ddinas Ewropeaidd nodedig erbyn 2020. Mae'r adroddiad yn rhannu'r pedwar amcan gwella i nodau llai a gefnogir gan gamau gweithredu penodol y disgwyli'r iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2011.





## Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

### **Mae rhai trefniadau'n cefnogi gwelliant yn gadarnhaol ac mae Tîm Rheoli Corfforaethol sefydlog yn bodoli, fodd bynnag, ceir rhai problemau a diffygion llywodraethu mewn rhai trefniadau busnes**

**Mae trefniadau partneriaeth, rheoli prosiectau a rhai agweddau ar reoli adnoddau yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol**

#### **Partneriaethau**

**29** Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar bartneriaethau sy'n helpu i gyflawni ei amcanion corfforaethol ei hun. Mae'r prif ffocws ar brosiectau sy'n rhoi budd uniongyrchol i ardal leol Abertawe neu sydd â ffocws rhanbarthol gyda'i dri phrif bartner sef cynghorau Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot. Ymysg enghreifftiau o'r dull hwn o weithredu mae Swansea Matters, partneriaeth rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu, prosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol megis Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) a'r ffocws ar anweithgarwch economaidd.

**30** Yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gwelir y Cyngor fel y prif bartner, ac mae'r Weithredwr a'r Arweinydd yn neilltuo adnoddau i arwain y broses o gyflawni'r pedwar prosiect â blaenoriaeth.

**31** Mae'r Cyngor wedi cydnabod mai prin yw'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cytuno ar ganlyniadau a rennir a sefydlu dangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant a rennir. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymchwilio i adnoddau er mwyn datblygu'r dull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ond nid yw eto wedi ymgysylltu'n llawn â'i bartneriaid er mwyn datblygu hyn ar y cyd.

**32** Mae gan y Cyngor drefniadau partneriaethau cytundebol hefyd, er enghraifft y trefniadau â Bay Leisure a Cap Gemini. Mae rheoli a sicrhau gwerth gorau o'r contractau hyn yn bwysig i'r Cyngor a bydd yn rhaid i ffocws swyddogion newid i fod yn ffocws rheolwr contract yn hytrach na darparwr gwasanaeth. Mae cadw sgiliau technegol fodd bynnag yn hanfodol i allu'r Cyngor i werthuso cynigion ac opsiynau. Prawf o'r sgiliau hyn fydd ystyriaeth y Cyngor o opsiynau ynglŷn â sut y bwriada ddarparu gwasanaethau TGCh wrth i gontract Cap Gemini gychwyn ar ei bum mlynedd olaf.

## Rheoli prosiect

- 33** Mae gan y Cyngor fethodoleg rheoli prosiect a rhaglen wedi'i diffinio'n glir, a gefnogir gan swyddogion wedi'u hyfforddi. Mae ymagwedd y Cyngor yn gadarn tuag at sicrhau bod ei reolwyr prosiect wedi'u paratoi'n drylwyr i wneud eu gwaith ac mae ganddo raglen electronig a phhecyn hyfforddi rheoli prosiect a gydnabyddir yn annibynnol.
- 34** Er mwyn sicrhau bod y prosiectau a'r rhaglenni mwyaf arwyddocaol yn cael y lefel briodol o graffu a rheoli, caiff rhaglenni cyflenwi allweddol y Cyngor eu hystyried yn Rhaglenni Strategol. Mae'r holl Raglenni Strategol yn cyflwyno adroddiadau i Fwrdd Rhaglenni Strategol y Cyngor, ac mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol ymysg ei aelodaeth. Mae hyn yn rhoi lefel ychwanegol o lywodraethu a fframwaith effeithiol â llinellau adrodd strategol clir.

## Rheoli adnoddau

- 35** Nodwyd mewn Llythyrau Archwilio Blynyddol bod gan y Cyngor drefniadau ariannol priodol, gan gynnwys trefniadau rheoli cyllidebau. Mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2010-11, sy'n cynnwys adfer cronfa wrth gefn o £10 miliwn er mwyn darparu'r adnoddau i ymdrin â risgiau. Mae defnyddio'r gronfa wrth gefn, a'r penderfyniad i'w chadw, yn arfer da. Er mwyn sicrhau y cedwir at y gyllideb bydd yn rhaid cynyddu incwm treth gyngor, bydd yn rhaid gwneud arbedion a defnyddio £3.5 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn. Mae defnyddio'r cronfeydd wrth gefn wedi creu cyfnod o ras yn y tymor byr ond nid yw'r dull hwn yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r hirdymor.
- 36** Mae gan ddeiliaid y gyllideb wahanol raddau o berchnogaeth o'u cyllidebau a'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn sicrhau arbedion. Dylai cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaeth felly fod yn fwy integredig.
- 37** Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig clir, sy'n cynnwys asesiad bras o anghenion gwario a diffygion ariannol a ragwelir dros y cyfnod tair blynedd o 2011-12 i 2012-14. Mae'n cyflwyno'r neges y rhagwelir diffyg o tua £17 miliwn bob blwyddyn ac felly y dylai'r Cyngor baratoi nawr ar gyfer cyfnod estynedig o lymder. Er bod y Cyngor wedi datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig, nid yw'n cysylltu'n glir â strategaethau corfforaethol allweddol eraill.
- 38** Ceir Cynllun Gweithredu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a luniwyd i ddatrys y diffygion ariannol a ragwelir. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ei gwneud yn glir nad yw'r Cynllun Gweithredu presennol yn ddigon ac y bydd angen gwneud toriadau mewn gwasanaethau er mwyn sicrhau y gwneir yr arbedion sydd eu hangen.
- 39** Mae strwythur gwneud penderfyniadau o ran TGCh yn y Cyngor yn ddryslyd oherwydd bod nifer o wahanol fyrddau a grwpiau wedi'u sefydlu. Bellach mae gan ddau grŵp allweddol y cyfrifoldeb yn y pen draw: y Bwrdd Rhaglen Strategol a'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Mae Penaethiaid Gwasanaethau a Chyfarwyddwyr Corfforaethol yn aelodau o'r grwpiau allweddol hyn ac felly cânt gyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad TGCh. Cyfyng yw gallu ac adnoddau TGCh mewnol y Cyngor ac mae'n aml yn defnyddio ymgynghorwyr i gynghori a rhoi canllawiau; gallai hyn wanhau'r broses o wneud penderfyniadau.



**40** Mae'r cyfeiriad strategol a amlinellir yn y Strategaeth TGCh a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn glir, mae'r strategaeth yn nodi opsiynau ar gyfer y dyfodol ac mae'n cynnwys costau dangosol. Nid oes fawr ddim cysylltiad ag amcanion eraill y Cyngor ond mae'n cysylltu'n glir ag ysgogwyr a syniadau cenedlaethol TGCh. Nid yw'n glir sut y bydd y trefniadau cytundebol presennol yn effeithio ar gysoni â strategaeth Cymru.

### **Mae gan y Cyngor Dîm Rheoli Corfforaethol sefydlog a grŵp o bolisiau a strategaethau cydlynol ar y cyfan ond ceir rhai problemau llywodraethu a bydd angen i'r arweinyddiaeth wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn sicrhau'r arbedion angenrheidiol**

#### **Tîm Rheoli Corfforaethol**

- 41** Aed i'r afael â mater rolau adrannol a chorfforaethol yn y Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae gan yr holl Gyfarwyddwyr rolau corfforaethol arweiniol a thros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi mabwysiadu agenda fwy strategol o gyfarfodydd sydd â mwy o bwyslais ar feysydd risg uchel.
- 42** Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi dangos y gall roi'r arweinyddiaeth sydd ei hangen mewn amgylchiadau anodd, fel y dengys y gwelliannau yn arweinyddiaeth gorfforaethol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a nodwyd gan AGGCC ar ôl ei arolygiad o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ym mis Mawrth 2010.

**43** Er bod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn sefydlog mae nifer yr uwch-reolwyr wedi lleihau o 38 i 24 mewn pedair blynedd. Mae'r gostyngiad hwn yn dangos ymrwymiad i effeithlonrwydd rheoli ond mae'n bosibl ei fod wedi cyfrannu at rywfaint o gyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau yn datblygu yn yr haen gyntaf a'r ail. Gallai'r cyfyngiadau hyn sy'n datblygu o ran gallu ac adnoddau gael effaith ar y cydbwysedd sydd wedi'i daro rhwng rolau corfforaethol a rolau adrannol y Cyfarwyddwyr drwy eu tynnu'n ôl fwyfwy i rolau adrannol.

#### **Polisi a Strategaeth**

- 44** Nodir cyfeiriad strategol y Cyngor yn glir mewn nifer o gynlluniau. Mae'r cynlluniau hyn yn gyson â'i gilydd ac yn cynrychioli dull gweithredu strategol a chydlynol a fyddai'n ddigonol mewn cyd-destun sefydlog. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gweithredu mewn cyd-destun sefydlog a bellach mae angen sicrhau eu bod yn cysoni ac yn integreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ofalus er mwyn cryfhau'r broses cynllunio busnes corfforaethol.
- 45** Mae gan y Cyngor fodel ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion drwy Leisiau Abertawe. Mae gan y panel hwn 1,250 o aelodau ac mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r panel tua theirgwaith y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cynllunio'r arolygon er mwyn dangos newid o ran tueddiadau a pherfformiad ac er mwyn gofyn cwestiynau ynghylch materion cyfredol sy'n effeithio ar y Cyngor a'i wasanaethau. Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ar ei Amcanion Gwella ym mis Hydref 2010. Cynhelir ymgynghoriadau drwy'r wefan a thrwy bostio papurau ymgynghori'n uniongyrchol at grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb. Mae canlyniadau'r arolygon ar gael i Gyfarwyddwyr Corfforaethol, y Prif Weithredwr ac, er enghraifft, y Byrddau Trosolwg a Chraffu.

**46** Mae'r Cyngor yn cefnogi datblygu cronfa ddata ymgynghori er mwyn rhannu canfyddiadau/tystiolaeth â grwpiau eraill sydd â diddordeb megis yr heddlu ac mae hefyd yn cyfrannu at Bartneriaeth Ymgynghori Abertawe. Mae'r Cyngor yn ymorol am ymestyn a chryfhau ei broses ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion ac mae'n gweithio gyda Chynghorau eraill (Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen a Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent) yn dilyn canllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

### Llywodraethu

**47** Ymddengys bod cyfradd uchel o achosion yn cael eu cyfeiriadau at yr Ombwdsmon. Mae hyn yn adlewyrchu naill ai bod mwy o duedd i gyfeirio ymddygiad aelodau ato neu y ceir mwy o achosion o ymddygiad aelodau sy'n cyfiawnhau cael eu cyfeirio ato.

**48** Roedd y trefniadau craffu wedi bod yn seiliedig ar wahanu'r pwyllgor craffu a'r pwyllgor trosolwg ac nid yw'r model hwn wedi bod yn effeithiol iawn ar y cyfan; heb rôl edrych i'r dyfodol, tuedd i oedi cyn cyflwyno adroddiadau ac i ganolbwyntio ar faterion o fuddiant gwleidyddol yn hytrach na'r rheini o fudd i'r cyhoedd. Er i'r pwyllgor craffu a throsolwg cyfunol a sefydlwyd ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gael canmoliaeth fawr gan AGGCC, nid yw'r rhan fwyaf o gadeiryddion pwyllgorau craffu na'r rhan fwyaf o aelodau'r cabinet yn cefnogi'r trefniadau newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar (mis Mai 2010) sy'n dychwelyd at bwyllgorau craffu a throsolwg cyfunol. Mae'r cynnydd arfaethedig yn nifer y pwyllgorau yn codi rhai cwestiynau. Mae'r cynnydd yn nifer y Pwyllgorau Cynllunio yn groes i argymhellion swyddogion ac archwiliad blaenorol<sup>3</sup>. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddangos bod cynyddu nifer y

Pwyllgorau Cynllunio hyn yn ddefnydd effeithlon a chywir o adnoddau. Mae'r mater hwn yn faes y byddwn yn ei adolygu drwy gydol misoedd yr haf.

**49** Bydd yn rhaid cyfiawnhau cynyddu nifer y pwyllgorau eraill yng ngoleuni cynnwys adroddiad diweddar Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol<sup>4</sup>. Mae'r adroddiad hwn yn nodi:

'Dylai cynghorau nodi nad ydym yn disgwyl, o ganlyniad i'n penderfyniad i dynnu Lwfansau Cyfrifoldebau Arbennig oddi ar gadeiryddion pwyllgorau nad ydynt yn rhai rheoleiddio na chraffu, y bydd cynnydd yn nifer y swyddi y rhoddir Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig iddynt, oni fydd rhesymeg sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda ac sydd wedi'i hategu gan y Cyngor yn gyffredinol ac y gellir ei chyfiawnhau'n gyhoeddus yn cael ei chyflwyno i'r Panel ei hystyried.'

### Arweinyddiaeth

**50** Mae'r arweinyddiaeth well a roddwyd i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a ganmolwyd gan y Gweinidogion ac AGGCC wedi dod o ganlyniad i effeithiau cadarnhaol gweithio trawsbleidiol i raddau helaeth. Byddai'r Cyngor yn cael budd mawr pe byddai'r dull hwn o weithredu'n cael ei ddyblygu mewn meysydd eraill o fusnes y Cyngor.

**51** Mae'r Cyngor yn wynebu'r her o roi ei gyllideb ar gyfer 2010-11 ar waith ac adolygu'r meysydd lle y disgwylir y bydd gwariant yn cael ei leihau yn y tymor canolig. Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses ar gyfer penderfynu sut y gwneir arbedion yn y dyfodol ac ym mhle. Cynnwys y broses hon yn ei hanfod yw cyfres o gyfarfodydd rhwng arweinwyr gwleidyddol a rheoli a gynlluniwyd ar gyfer mis Mehefin a

<sup>3</sup> Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Reoli Datblygu, Medi 2008

<sup>4</sup> Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Symud Ymlaen: *Cynigion Y Tu Hwnt i 2010*



Gorffennaf. Her fawr i arweinwyr gwleidyddol y Cyngor, ar ôl y cyfarfodydd hyn, fydd gwneud penderfyniadau a gweithredu'n amserol er mwyn sicrhau y gwneir yr arbedion angenrheidiol.

- 52** O ran gwneud penderfyniadau anodd ac amserol, bydd yn rhaid i arweinyddiaeth gwleidyddol y Cyngor gysoni'r buddiannau a'r ideolegau gwahanol o fewn y glymblaid. Ni ddylai'r posibilrwydd hwn o wrthdaro atal gwneud penderfyniadau na bod yn rhwystr i annog gweithio trawsbleidiol a allai fod o gymaint o fudd.

## **Gallai diffygion mewn cynllunio busnes, rheoli perfformiad a risg ac agweddau ar reoli pobl beryglu gwelliant yn y dyfodol**

### **Cynllunio busnes**

- 53** Mae'r Cyngor yn symud o fodel cynllun gwasanaeth i fodel cynllun busnes. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun busnes wedi'i datblygu'n llwyr na'i ddefnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r Cyngor eto. Mae'r Cyngor yn datblygu a threialu dull diwygiedig o weithredu o ran cynllunio busnes sy'n galw am wasanaethau i edrych yn fanylach ar faterion megis risg, cynllunio'r gweithlu, cyllideb, a chydaddoldebau a chynaliadwyedd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen mwy o waith er mwyn cysoni'r cynlluniau hyn yn llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- 54** Mae'r Cyngor yn bwriadu llunio cynlluniau busnes tair i bedair blynedd a gaiff eu diweddar'u'n flynyddol a fydd yn disodli'r cynlluniau gwasanaeth mewn cyfarfodydd Rheoli Perfformiad a Rheoli Ariannol fel offer i fonitro darparu gwasanaethau.

### **Rheoli perfformiad**

- 55** Mae gan y Cyngor fodel datblygedig ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth am berfformiad. Mae tîm penodedig yn cefnogi'r cyfarwyddiaethau ac yn dadansoddi perfformiad. Mae'r Tîm Perfformiad yn datblygu crynodebau ystadegol sy'n dangos tuedd a pherfformiad yn erbyn targedau. Mae'r cyfarfodydd Monitro Perfformiad a Monitro Ariannol yn cynnig fforwm ar gyfer herio perfformiad.
- 56** Mae trefniadau presennol rheoli perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar fesur a monitro o fewn fframwaith sy'n cael ei lywio'n ganolog yn hytrach na bod y gwasanaeth yn berchen ar y broses. Mae'r diwylliant yn un sy'n mesur perfformiad yn hytrach na rheoli perfformiad. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu'r ystod o ddangosyddion y mae'n eu casglu ac yn treialu model 'Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau' sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau er mwyn cefnogi'r broses o symud o ddiwylliant mesur i ddiwylliant rheoli.

### **Rheoli risg**

- 57** Mae strategaeth a pholisi rheoli risg y Cyngor bellach dros bum mlwydd oed ac nid yw'r Cyngor wedi cymeradwyo'r adolygiadau diweddar i'r dogfennau yn ffurfiol. Mae nifer o gofrestrau risg ar waith, sy'n cynnwys risgiau sy'n amrywio o faterion corfforaethol mawr i risgiau gweithredol bach. Mae'r holl gofrestrau risg hyn yn creu darlun cyffredinol dryslyd.
- 58** Nid yw rôl aelodau wedi'i diffinio'n glir o ran nodi a monitro risg. Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp risg strategol ond, er i wahoddiad ehangach gael ei estyn, ar hyn o bryd dim ond aelodau'r Uned Gwasanaeth Perfformiad a Phrosiectau Strategol a Chyfarwyddiaeth y Cydlynwyr Risg sy'n mynychu.



Hefyd, mae cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen Strategol a'r Gyfarwyddiaeth Monitro Perfformiad a Monitro Ariannol yn ystyried risgiau a materion.

### Rheoli pobl

**59** Mae blaenoriaethau Adnoddau Dynol y Cyngor wedi'u nodi'n glir ond nid ydynt wedi'u cofnodi mewn strategaeth Adnoddau Dynol. Er y caiff cyflymdra gwelliannau eu rhwystro gan ddiffyg adnoddau bellach mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran trefniadau cyflog a graddio a'r system gyflogres. Mae gan y Cyngor gynlluniau Adnoddau Dynol sy'n canolbwyntio ar amcanion busnes ac sydd wedi'u cysoni â hwy ond megis dechrau y mae'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Prin yw'r integreiddio cyffredinol rhwng y cynllun gwasanaeth, y cynllun ariannol a chynllun y gweithlu sy'n achosi diffyg dull gweithredu strategol i'r broses o leihau costau staff, ac sy'n peri risg sylweddol o gamgyfatebiaeth rhwng y gofynion o ran adnoddau a'r cyflenwad sgiliau yn y dyfodol. Mae gan y Cyngor Bolisi Absenoldeb oherwydd Salwch clir, sy'n monitro lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn weithredol ac sydd wedi buddsoddi mewn iechyd galwedigaethol. Mae'r rheoli rhagweithiol hwn wedi arwain at leihau lefel yr absenoldeb hirdymor oherwydd salwch.

**60** Ceir diffyg eglurder o ran rôl Adnoddau Dynol yn y Cyngor yn y dyfodol. Ymddengys fod trefniadau arweinyddiaeth dros dro ar y cyd yr adran Adnoddau Dynol yn gweithio'n dda, fodd bynnag, bydd angen ond un man atebolrwydd ac uwch-arweinyddiaeth ar yr adran Adnoddau Dynol yn y tymor hwy.

**61** Mae'r Cyngor yn wynebu diffyg adnoddau i gefnogi'r cyflymdra newid a ddymunir, a gallai hyn arwain at amserlenni a'r hyn y dylid ei gyflawni ar brosiectau allweddol yn arafu o ganlyniad. Mae'n bosibl y ceir diffyg gallu ym maes Datblygu Sefydliadol i ysgogi a helpu newid y diwylliant ac mae'n bosibl y ceir diffyg adnoddau (yn hytrach na gallu) i reoli rhaglen diswyddo staff ar raddfa fawr, os bydd angen, mewn modd amserol ac effeithiol. Mae angen strategaeth a chynllun Adnoddau Dynol wedi'u cofnodi'n glir sy'n ymgorffori strategaeth effeithiol ar gyfer y gweithlu.



